Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: gwelliant â ffocws

**Cylch Meithrin Llangwyrfon**
**Neuadd Santes Ursula**
**Llangwyryfon**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 4HA**
**Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin Llangwyryfon wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Medi 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r lleoliad o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Ymsefydlu'r gweithdrefnau cynllunio ymhellach i ddatblygu medrau'r plant yn fwy systematig ar draws y meysydd dysgu

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad yn defnyddio canllawiau'r awdurdod lleol yn effeithiol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau ar draws yr holl feysydd dysgu. Maent yn defnyddio fformat cynllunio mwy perthnasol sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn canolbwyntio ar fedrau penodol. Bellach, ceir cysylltiad cadarn rhwng y gweithgareddau a'r medrau. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau'n ofalus ac mae'r arweinydd yn cofnodi pa fedrau sy'n cael eu datblygu er mwyn sicrhau dilyniant effeithiol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r cofnod yn effeithiol er mwyn cynllunio tasgau sy'n briodol i anghenion y plant ac yn eu herio'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae gan gynlluniau'r tymor hwn ffocws cryf ar gyfoethogi iaith y plant yn unol â'u gallu a'u cefndir ieithyddol. Mae hyn yn datblygu medrau rhan fwyaf y plant yn gydlynol.

Wrth gynllunio'r tasgau ffocws, mae'r arweinydd yn pennu deilliannau gwahanol ar gyfer plant o wahanol oed a gallu. O ganlyniad, mae ffocws clir ar sicrhau bod y medrau sy'n cael eu hamlygu yn y cynlluniau yn cael eu datblygu'n llawn yn ystod y sesiynau ymarferol. Mae'r cynlluniau ar gyfer chwarae annibynnol y plant hefyd yn rhoi ffocws cadarn ar ddatblygu'r medrau hyn. Mae'r ymarferwyr yn diweddaru ac yn amrywio'r cynlluniau hyn yn gyson er mwyn atgyfnerthu dysgu'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae gweithgareddau diweddar yn cynnwys profiadau dysgu hwylus sy'n canolbwyntio ar y Pasg.

### Argymhelliad 2: Datblygu'r defnydd o ddeilliannau asesu cynnydd plant wrth gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae adnabyddiaeth yr ymarferwyr o gyrhaeddiad y plant yn datblygu'n gadarn. Yn dilyn cefnogaeth effeithiol gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a hyfforddiant perthnasol, mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o athroniaeth a gofynion y cyfnod sylfaen. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynllunio gweithgareddau buddiol ar gyfer yr holl feysydd dysgu. Maent yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon, yn ogystal â threfniadau asesu newydd, yn fwy effeithiol er mwyn bodloni anghenion y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau o gyflawniadau'r plant yn rheolaidd yn ystod tasgau ffocws ac wrth iddynt chwarae yn y ddarpariaeth barhaus. Mae cyswllt

cadarn rhwng yr asesiadau hyn a'r bwriadau dysgu ac mae ymarferwyr yn eu trafod yn wythnosol er mwyn amlygu'r camau nesaf. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at y penderfyniadau ynglŷn â'r adnoddau a gynigir yn y ddarpariaeth barhaus, ac at werthusiad perthnasol o effeithiolrwydd y tasgau. Er nad yw'r ffordd ymlaen yn cael ei nodi bob tro ar asesiadau unigolion, mae'r camau nesaf yn cael eu hamlygu'n glir o fewn y cynllunio wythnosol. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sydd yn ymateb i anghenion y plant yn llwyddiannus ac yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y plant yn gydlynol. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod ymarferwyr yn cynnig adborth effeithiol i rieni ar gynnydd eu plant.

**Argymhelliad 3: Sefydlu gweithdrefnau arfarnu mwy cadarn i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae eu dealltwriaeth o'r meysydd sydd angen eu gwella yn datblygu'n gadarn. Mae'r ymarferwyr, y pwyllgor rheoli a'r person cofrestredig, o dan arweiniad cadarn yr athrawes gyswllt, wedi gosod blaenoriaethau synhwyrol ar gyfer blwyddyn gyntaf yr arweinydd newydd. Mae'r arweinydd yn parhau i gydweithio'n agos iawn 'gyda'r athrawes gyswllt i sicrhau bod trefniadau hunanarfarnu'r lleoliad yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae'r arweinydd wedi mynychu hyfforddiant cyfnod sylfaen gwerthfawr er mwyn datblygu trefniadau dyddiol mwy effeithiol yn ogystal ag agweddau o'r ddarpariaeth barhaus. Mae ymweliad i leoliad cyfagos hefyd wedi cryfhau gallu'r arweinwyr i feirniadu'r safonau a'r ddarpariaeth o fewn eu lleoliad. Yn dilyn arfarniad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth, maent yn dechrau adnabod meysydd pwysig sydd angen gwelliant. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wedi adnabod yr angen i wella medrau corfforol y plant ac wedi ymgeisio am grantiau ar gyfer prynu adnoddau pwrpasol.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y pwyllgor rheoli yn derbyn adroddiad ysgrifenedig wythnosol am waith y lleoliad. Mae'r adroddiadau manwl hyn yn cynnwys sylwadau priodol ynglŷn â'r ddarpariaeth a threfniadau gweinyddol y lleoliad. O ganlyniad, mae aelodau'r pwyllgor yn derbyn gwybodaeth fuddiol er mwyn dechrau barnu effaith y ddarpariaeth ar safonau plant. Maent yn dechrau cyfrannu'n briodol i drefniadau hunanarfarnu'r lleoliad trwy arsylwi ar sesiynau dysgu yn ogystal â chasglu barn rhieni trwy holiadur pwrpasol. Er enghraifft, mae aelodau'r pwyllgor wedi arsylwi sesiynau dysgu er mwyn mesur effaith hyfforddiant penodol ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol y plant.

Mae'r cyfathrebu rhwng y lleoliad a rhieni wedi cryfhau'n sylweddol. Mae'r arweinydd yn cyfathrebu'n hyderus iawn gyda rhieni ac yn rhannu unrhyw wybodaeth am y lleoliad ar lafar a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r pwyllgor rheoli yn ystyried sylwadau pob rhiant cyn gweithredu newidiadau gweinyddol. Enghraifft dda o hyn yw'r ymgynghori ynglŷn â'r posibilrwydd o ymestyn nifer y diwrnodau y mae'r lleoliad ar agor. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn dechrau casglu barn rhieni am effeithiolrwydd arweinyddiaeth a darpariaeth y lleoliad yn briodol trwy holiadur pwrpasol. Mae'r ddogfen hunanarfarnu bellach yn arfarnol ac yn cynnwys gwerthusiadau clir sydd yn amlinellu'r cryfderau yn ogystal â sylwadau ynglŷn â beth i'w gynnwys yn y cynllun

datblygu.

Mae cynllun datblygu'r lleoliad yn cynnwys targedau addas. Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd cryf yn erbyn pob un o'r targedau ac mae hyn yn dechrau cael effaith ar safonau'r plant. Er enghraifft, maent wedi gwneud defnydd mwy effeithiol o'r ardal allanol ac wedi sefydlu ardaloedd dysgu penodol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd a rhifedd rhan fwyaf y plant.

**Argymhelliad 4: Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a drafodwyd yn ystod yr arolygiad**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad wedi delio'n addas gyda'r mater a amlygwyd adeg yr arolygiad craidd.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.